***Statws** This is the original version (as it was originally enacted).*

## ATODLEN 2

## EITHRIADAU I ADRAN 7

### RHAN 3

### TENANTIAETHAU A THRWYDDEDAU NAD YDYNT BYTH YN GONTRACTAU MEDDIANNAETH

*Y rheol*

7 (1) Nid yw tenantiaeth neu drwydded yn gontract meddiannaeth ar unrhyw adeg pan fo'r paragraff hwn yn berthnasol iddi.

(2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i denantiaeth neu drwydded os yw pob un o'r personau y'i gwneir â hwy wedi eu heithrio rhag bod yn ddeiliaid contract gan adran 7(6) (unigolion nad ydynt wedi cyrraedd 18 oed).

(3) Mae'r paragraff hwn hefyd yn gymwys i—

(a) tenantiaeth y mae Rhan 2 o Ddeddf Landlord a Thenant 1954 (p. 56) (tenantiaethau busnes) yn gymwys iddi;

(b) meddiannaeth warchodedig neu denantiaeth statudol o fewn ystyr Deddf Rhenti (Amaethyddiaeth) 1976 (p. 80);

(c) tenantiaeth warchodedig neu denantiaeth statudol o fewn ystyr Deddf Rhenti 1977 (p. 42);

(d) tenantiaeth ddiogel sy'n denantiaeth cymdeithas dai, o fewn ystyr adran 86 o Ddeddf Rhenti 1977;

(e) tenantiaeth o ddaliad amaethyddol o fewn ystyr Deddf Daliadau Amaethyddol 1986 (p. 5);

(f) tenantiaeth busnes fferm o fewn ystyr Deddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995 (p. 8);

(g) tenantiaeth hir (gweler paragraff 8);

(h) tenantiaeth neu drwydded sy'n ymwneud â llety'r lluoedd arfog (gweler paragraff 9);

(i) tenantiaeth neu drwydded sy'n ymwneud â llety mynediad uniongyrchol (gweler paragraff 10).